

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Park Place Dental Practice,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd
a'r Fro

Dyddiad arolygu: 1 Mai 2019

Dyddiad cyhoeddi: 2 Awst 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	22
4.	Beth nesaf?	24
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	25
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	26
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	27
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	28

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Park Place Dental Practice (MA & ST Hill Ltd) yn 3-4 Plas y Parc, Caerdydd CF10 3DP sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 1 Mai 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Park Place Dental Practice yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol iawn i'w gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y cleifion. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref ac roedd y polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith i gefnogi'r cleifion a'r staff.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom drwy holiaduron AGIC fod y rhan fwyaf o'r cleifion o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn y practis yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd yr ardaloedd clinigol yn cael eu cynnal i safon dda iawn, ac roedd amrywiaeth o ddulliau a phrotocolau arfer da ar gael i'r staff, ac roeddent yn eu defnyddio, i'w galluogi i ddarparu gofal da iawn i gleifion.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelwyd tystiolaeth o ddulliau rheoli ac arwain cadarn gan y Prif Ddeintydd a Rheolwr y Practis
- Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn
- Cafwyd adborth cadarnhaol gan y cleifion a oedd yn nodi eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y staff yn ymddangos yn hapus yn eu rolau ac roedd ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd y cyfleusterau clinigol o safon uchel iawn, yn cynnwys adnoddau digonol ac roeddent i'w gweld yn lân iawn
- Mae'r practis yn bractis hyfforddi ar gyfer Prifysgol Caerdydd ac roedd cofnodion y cleifion o safon uchel ac yn broffesiynol iawn.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Hysbysu'r cleifion o ganlyniadau eu hadborth ac unrhyw newidiadau a wnaed
- Adolygu'r ffordd y caiff cyffuriau brys ac offer ategol eu rheoli.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Park Place Dental Practice yn darparu gwasanaethau i gleifion yng Nghanol Dinas Caerdydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn ardal Caerdydd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, yn cynnwys y prif ddeintydd a deintydd dan hyfforddiant sylfaenol ar ei blwyddyn gyntaf (DF1)¹, dau hylenydd, chwe nyrs ddeintyddol, gan gynnwys nyrs dan hyfforddiant ar leoliad, un derbynnydd a rheolwr y practis.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

¹ <https://dental.walesdeanery.org/training-programmes/dental-foundation-training>

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod Park Place Dental Practice yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn y practis deintyddol yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth i roi cymorth i gleifion i wneud dewisiadau effeithiol ynglŷn ag iechyd da yn y geg ac opsiynau triniaeth yn ôl yr angen. Roedd yr awyrgylch yn groesawgar, a gwnaeth y staff ymdrech i wneud i'r cleifion ymlacio a theimlo'n gartrefol o'r eiliad yr oeddent yn cyrraedd.

Yn ogystal â gofyn am adborth gan gleifion a hysbysu'r gweithwyr deintyddol proffesiynol o'r canlyniadau, dylid rhoi gwybod i'r cleifion hefyd am unrhyw ganlyniadau a newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth hwn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 40 ohonynt. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers dros ddwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron mae'r canlynol:

"Cefais ofal gwych gan y deintydd. Mae bob amser yn barod i egluro ei weithdrefnau. Mae'r derbynnydd yn wych"

"Mae'r staff bob amser yn gwrtais, yn wybodus ac am gael y gorau i'w cleientiaid"

“Gwasanaeth gwyh. Mae'r amgylchedd yn wych ac mae'r staff yn rhagorol. Gwasanaeth cwsmeriaid gwyh. Mae'r deintydd wedi rhoi cyngor cadarn i mi am fy ngofal deintyddol drwy negeseuon atgoffa rheolaidd ac mae'r hylenydd yn wych. Mae gofal/hylendid fy ngheg wedi gwella yn sgil y cyngor addysgol gan y staff”.

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu, ac roedd yr holl sylwadau a roddwyd gan y cleifion yn gadarnhaol ac yn llawn canmoliaeth ac ni chafodd unrhyw welliannau eu hargymell.

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd pob claf a gwblhaodd yr holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrtho sut i gadw ei geg a'i ddannedd yn iach.

Gwelsom fod ystod eang o wybodaeth ar gael i'r cleifion yn yr ardaloedd aros am driniaethau preifat a thriniaethau'r GIG, yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am iechyd y geg i oedolion a phlant. Roedd hyn ar gael ar fonitor teledu uwchben ac mewn ffolder yn yr ardaloedd aros i gleifion preifat a chleifion y GIG. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am ardaloedd ataliol, adferol ac orthodontig â lluniau a diagramau i'w gwneud yn haws i ddeall.

Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff pan wnaethant ymweld â'r practis.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn defnyddio'r ystafell gyfarfod fach wrth ymyl y dderbynfa os oeddent angen cynnal sgwrs breifat â chlaf er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal ei gyfrinachedd mewn trafodaethau. Nodwyd bod gan y practis amrywiaeth o bolisiau a oedd yn ymwneud â phreifatrwydd, urddas a chyfrinachedd.

Roedd gan y practis bolisiau priodol ar waith hefyd i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch, gan gynnwys taflen i gleifion ar wybodaeth bersonol. Nodwyd gennym fod y 9 Egwyddor a nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol² wedi'u harddangos yn y dderbynfa. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos a oedd yn hysbysu'r cleifion o'u hawl i gael hebryngwr pan fyddent yn cael eu gweld gan staff gofal iechyd. Defnyddir hebryngwyr er mwyn diogelu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a'r claf pan gaiff y claf ei archwilio.

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn siarad â nhw mewn ffordd gwrtais.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod y daflen wybodaeth i gleifion ar gael i gleifion yn y dderbynfa, a'i bod yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr am y practis. Gwelsom bosteri yn y ddwy ardal aros yn arddangos costau triniaethau preifat a ffioedd triniaethau'r GIG. Roedd y weithdrefn gwynion i gleifion wedi'i harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Lle y bo'n gymwys, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth. Dywedodd y cleifion hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am y triniaethau sydd ar gael a bod cost y driniaeth bob amser yn cael ei hegluro cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith 'bob amser'.

Er bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael, yn Saesneg roedd y wybodaeth hon gan amlaf. Roedd gweithdrefn gwynion y cleifion yn ddwyieithog ac roedd

² <https://standards.gdc-uk.org/>

hysbysiad yn ymwneud â'r opsiwn o ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ³Llinell laith. Mae'r practis hefyd wedi gwneud trefniadau i ddarparu mwy o wybodaeth yn Gymraeg a helpu'r staff i wneud 'Cynnig Rhagweithiol'⁴.

Gofal amserol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Roedd manylion am sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'u harddangos wrth fynedfa'r practis, ar y daflen wybodaeth i gleifion, yn ffolder polisïau'r cleifion yn y ddwy dderbynfa ac fel rhan o neges peiriant ateb y practis.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn hawdd iawn neu'n eithaf hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Mae cyfleuster hefyd i drefnu apwyntiadau ar-lein ar wefan y practis.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon a nodwyd bod yr achosion o apwyntiadau'n rhedeg yn hwyr yn brin. Dywedodd y staff wrthym pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf a oedd yn aros am unrhyw oedi a chaniatáu iddo aildrefnu apwyntiad, os oedd angen.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym fod yr opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi ar bob un o'r cofnodion perthnasol a welsom. Dangosodd hyn fod cleifion yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau am eu hopsiynau triniaeth.

³ Asiantaeth gyfieithu yn y DU yw Language Line sy'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau dehongli, cyfieithu a lleoli.

⁴ Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano. <https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy>

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Gwnaethom hefyd weld y cleifion yn cwblhau'r wybodaeth hon yn ystod yr arolygiad.

Hawliau pobl

Mae'r practis wedi'i leoli mewn ardal gadwraeth ar lawr daear adeilad Fictoraidd pum llawr. Roedd y practis yn hygyrch i bobl oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn ac roedd toiled y cleifion yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn.

Gwelsom fod sawl polisi ar waith i gefnogi'r staff a'r cleifion, gan gynnwys polisi derbyn cleifion a pholisi cyfle cyfartal. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn gallu cyflawni ei ymrwymadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis holiadur â chodau lliw (ar gyfer pob deintyddfa hylenydd) lle y gallai cleifion roi sgôr i'r gwasanaeth roeddent wedi'i gael a gadael sylwadau. Roedd y practis yn rhannu'r canlyniadau â'r staff dan sylw. Dywedwyd wrthym fod y practis yn trafod unrhyw adborth, sylwadau, awgrymiadau neu gwynion gan gleifion a gaiff eu henwi yn uniongyrchol â nhw. Yn ogystal â hyn, mae gan y practis dudalen Facebook sy'n galluogi'r cleifion i gyfathrebu'n uniongyrchol, rhannu eu sylwadau, awgrymiadau ac adborth ar y gwasanaeth. Dywedodd rheolwr y practis ei bod hi neu'r prif ddeintydd yn ymateb yn uniongyrchol i unrhyw adborth a dderbynnir gan gleifion ar y dudalen Facebook ac yna gall unrhyw un sy'n ymweld â'r dudalen Facebook weld y sylwadau hefyd.

Er mwyn dangos i'r holl gleifion bod y practis yn gwrando ar eu hadborth neu'n gweithredu arno, rydym yn argymhell y dylent arddangos y canlyniadau neu'r newidiadau a wnaed yn dilyn yr adborth gan y cleifion yn yr ardaloedd aros neu yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Gwelsom fod polisi cwynion dwyieithog ar waith a oedd yn cydymffurfio â rhaglen Gweithio i Wella⁵ y GIG a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'i fod yn cyfeirio at yr asiantaethau perthnasol. Roedd y cofnod cwynion wedi'i gwblhau ac yn cynnwys cofnod cyfoes o achosion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Arddangos unrhyw ganlyniadau a newidiadau a wnaed yn dilyn yr adborth gan y cleifion yn y practis.

⁵http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/932/Healthcare%20Quality%20-%2030166_Putting%20Things%20Right_a5%20leaflet_Welsh_WEB%20VERSION%20-%20FINAL%20-%202017%2003%20011.pdf

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Roedd cofnodion meddygol yn cael eu cynnal i safon uchel.

Gwelsom fod y cyfleusterau clinigol yn cynnwys adnoddau da iawn a bod trefniadau ar waith i drin cleifion yn ddiogel.

Gwnaethom hefyd nodi'r mesurau ychwanegol a gymerwyd gan y practis i roi sicrwydd i'r staff ynghylch pelydrau-x.

Rydym yn argymhell y dylai'r practis adolygu'r ffordd y caiff cyffuriau brys ac offer ategol eu rheoli.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn "lân iawn".

Roedd y practis yn olau, yn daclus, yn fawr ac yn cynnwys golygfeydd a goleuadau uwchben i'r cleifion eu gweld wrth dderbyn triniaethau yn y deintyddfeydd. Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef. Roedd y tu allan i'r adeilad yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Y tu mewn, roedd yr adeilad wedi cael ei ail-ddylunio a'i deilwra ar gyfer y practis gan roi ystyriaeth i anghenion y staff a'r cleifion.

Gwelsom fod nifer o bolisiâu cynhwysfawr ar waith mewn perthynas ag addasrwydd yr adeilad, gan gynnwys polisi iechyd a diogelwch, polisi asesiadau risg a pholisi cynllun wrth gefn mewn argyfwng. Roedd polisiâu ac asesiadau risg ar gael yn hawdd i bob aelod o'r staff ac yn cael eu nodi mewn

cyfarfodydd tîm. Roedd asesiad risg amgylcheddol ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r staff a'r cleifion.

Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a gwelsom eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd asesiad risg diogelwch tân ar waith yn y practis, yn ogystal â pholisi tân. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân priodol hefyd.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH) 2002⁶, mae angen i gyflogwyr naill ai leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd, neu ei atal yn gyfan gwbl. Gwelsom fod gan y practis brotocol 'Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd' (COSHH) a pholisi ar gyfer trin a thrafod mercwri. Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n briodol.

Er mwyn rhoi sicrwydd i'r staff ynglŷn â dod i gysylltiad â phelydrau-x, penderfynodd y practis ddwy flynedd yn ôl pan osodwyd yr offer, i gynyddu lefel y diogelwch pelydr-x yn y waliau drwy osod plastrfwrdd amddiffynnol ynddynt.

Mae'r practis yn defnyddio pelydrau-x digidol ac nid yw'n ofynnol i lefelau amlygiad ymbelydredd pelydr-x y staff gael eu monitro'n barhaus. Penderfynodd y practis roi sicrwydd ychwanegol i'r staff, drwy roi bathodynau monitro pelydrau-x i bob aelod o'r staff a oedd yn ymwneud â'r gwaith hwn a gaiff eu dadansoddi gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn fisol. Rydym yn ystyried bod y rhain yn enghreifftiau gwych o roi sicrwydd i'r staff a'r cleifion eu bod yn cael eu diogelu rhag y risgiau o amlygiad i ymbelydredd ïoneiddio wrth weithio gyda phelydrau-x.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis broses ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol mewn ystafell ddihalogi benodedig, fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 1-05⁷. Roedd cyfarwyddiadau clir yn yr ystafell o'r ardal frwnt i'r ardal lân.

⁶ http://www.hse.gov.uk/foi/internalops/ocs/200-299/273_20/

⁷ [www.wales.nhs.uk/sites3/documents/254/WHTM 01-05 Revision 1.pdf](http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/254/WHTM_01-05_Revision_1.pdf)

Gwelsom dystiolaeth fod y protocol ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio ar gael ac yn gyfredol ac roedd polisi rheoli heintiau a pholisi diogelu offer miniog ar waith i'r staff gyfeirio atynt. Roedd hyn yn golygu bod y staff a'r cleifion yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag anafiadau a heintiau a achosir gan nodwyddau. Roedd cyfarpar diogelu personol hefyd ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth wneud gwaith dihalogi.

Roedd y deintyddfeydd yn amlwg yn lân ac yn daclus ac roedd rhestr wirio ddyddiol ar gyfer dechrau a diwedd y dydd ym mhob deintyddfa yr oedd y staff yn ei chwblhau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw yn unol â WHTM 01-05. Roedd cypyrddau newydd ym mhob deintyddfa a oedd yn hawdd eu glanhau. Roedd y lloriau wedi'u selio a'u hystyngtu tuag at y waliau, er mwyn sicrhau eu bod yn hawdd eu glanhau.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar reoli heintiau. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y practis wedi cynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn unol â WHTM 01-05.

Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol rhag Hepatitis B er mwyn diogelu'r cleifion a'u hunain rhag heintiau.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau cleifion, gan gynnwys Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Argyfwng Meddygol a ffolder Gweithdrefnau Rheoli Cleifion. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y deuddeg mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd.

Roedd y practis wedi penodi tri swyddog cymorth cyntaf, gan sicrhau y câi'r staff a'r cleifion gymorth cyntaf priodol pe byddai damwain neu anaf.

Er bod gan y practis gyffuriau brys ac offer dadebru brys, gwnaethom nodi bod oes dwy o'r chwistrelli gyda'r cyffuriau brys wedi darfod. Gan fod chwistrelli

ychwanegol a oedd heb ddarfod ar gael, roedd gan y practis offer argyfwng priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁸.

Roedd y cyffuriau a'r offer brys yn cael eu cadw mewn cwpwrdd y gallai'r cleifion gael gafael arno ac roedd yr algorithmau brys yn sownd wrth fag dadebru. Byddem yn argymhell bod yr algorithmau yn cael eu cadw gyda'r cyffuriau brys perthnasol ar gyfer amrywiaeth o argyfyngau mewn blwch wedi'i labelu'n benodol mewn amgylchedd diogel.

Roedd pecyn cymorth cyntaf y practis yn gyflawn ac yn gyfredol. Roedd gan y practis bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod modd cael gafael ar feddyginiaethau'n briodol, yn ogystal â'u trin, eu defnyddio, eu storio a'u gwaredu'n briodol, ac roedd pob aelod o'r staff wedi gweld a chytuno ar y polisiâu a'r gweithdrefnau hynny. Nodwyd bod gan y practis bolisi ar gyfer gwirio'r stoc o offer a chyffuriau brys a ddefnyddir yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (y DU). O ran y mater a ddisgrifir uchod yn ymwneud â'r ddwy chwistrell, rydym yn argymhell bod y practis yn sicrhau bod proses ar gael i'r staff allu gwirio'r holl gyffuriau a'r eitemau ategol sydd â dyddiadau arnynt yn briodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid newid ble a sut y caiff y cyffuriau brys a'r algorithmau cysylltiedig eu storio i amgylchedd mwy diogel.

Rhaid i'r practis dynnu'r chwistrelli sydd wedi darfod oddi yno a sicrhau bod proses ar gael i'r staff er mwyn sicrhau bod y cyffuriau a'r eitemau ategol sydd â dyddiadau arnynt yn cael eu gwirio'n briodol.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu perthnasol.

⁸ Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a helpu i achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu

Ar adeg yr arolygiad, roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant diogelu priodol ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd swyddog diogelu arweiniol hefyd mewn swydd. Mae'r practis yn defnyddio Gwasanaeth Diweddar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd⁹, sy'n ei alluogi i weld a oes unrhyw wybodaeth berthnasol wedi'i nodi am aelod o'r staff ers ei Dystysgrif ddiwethaf.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod y deintyddfeydd mewn cyflwr gwych a bod offer priodol ar gael i sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd gan y practis beiriant Orthopantomogram mewn ystafell ddynodedig. Mae'n ddyfais sganio sy'n rhoi golygfa banoramig o'r ên a'r dannedd. Gall y sgan roi gwybodaeth am gefnddannedd, colli esgyrn, asesiad orthodontig, trawma i'r ên, poen ddeintyddol, neu gellir ei ddefnyddio mewn archwiliad deintyddol cyffredinol.

Gwnaethom nodi hefyd fod y ffolderi ar y waliau ym mhob deintyddfa a'r ystafell sterileiddio yn cynnwys y systemau a'r protocolau perthnasol ar gyfer yr ardal honno. Lle y defnyddiwyd dyfeisiau meddygol fwy nag unwaith, cawsant eu trin yn ddiogel a'u diheintio'n briodol yn yr ystafell dihalogi.

Roedd y cyfarpar radiolegol mewn cyflwr da ac roedd yr ardaloedd a reolir wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn gyfredol ac yn gynhwysfawr, ac yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol.

Yn unol â'r rheoliadau, roedd gan y practis bolisi cynnal a chadw a diogelwch cyfleusterau a oedd yn cynnwys profi offer, cynnal asesiadau risg priodol a rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol¹⁰ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)¹¹ 2000, roedd pob deintydd wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

⁹ <https://www.gov.uk/dbs-update-service>

¹⁰ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth fod nifer o archwiliadau clinigol ar waith yn y practis er mwyn helpu i ddangos ei fod yn cadw at y safonau proffesiynol cyfredol. Bydd canlyniadau'r archwiliadau yn helpu i nodi unrhyw feysydd ar gyfer gwella ac yn cefnogi unrhyw newidiadau i arferion y tîm deintyddol.

Roedd datganiad o ddiben y practis yn nodi'r trefniadau priodol ar gyfer derbyn, asesu, diagnosio a thrin cleifion. Roedd gan y practis hefyd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith i ategu'r swyddogaethau hyn.

Gwelsom dystiolaeth drwy gydol y dydd fod canllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol, megis canllawiau NICE¹², yn cael eu hystyried a'u dilyn lle y bo'n briodol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Fel y nodwyd uchod, gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cwblhau amrywiaeth o archwiliadau clinigol ac wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i ganllawiau proffesiynol.

Mae gan y practis contract gyda Phrifysgol Caerdydd i gael nyrs ddeintyddol a deintydd sylfaenol dan hyfforddiant ar leoliad clinigol. Mae Prifysgol Caerdydd yn ei gwneud hi'n ofynnol bod holl Oruchwylwyr Clinigol ar gyfer Nyrsys a Goruchwylwyr Addysgol ar gyfer Deintyddion Sylfaenol, sef y prif ddeintydd yn yr achos hwn, yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant perthnasol yn y practis.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel, gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei diogelu. Roedd copïau wrth gefn o gofnodion electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd er mwyn diogelu gwybodaeth cleifion a'i helpu i sicrhau nad oedd yn cael ei cholli.

¹¹ http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf

1. ¹² <https://www.nice.org.uk/.../oral-and-dental-health>

Roedd nifer o bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith yn y practis, gan gynnwys polisi diogelu data. Golygai hyn fod y staff yn gallu cael gafael ar ganllawiau addas mewn cysylltiad â'u gwaith o ddydd i ddydd.

Cadw cofnodion

Cawsom olwg ar sampl o gofnodion y cleifion. Roedd y sampl a adolygwyd gennym yn rhoi tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion clinigol o ansawdd uchel. Roedd hyn yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i safon uchel, gan gynnal diogelwch a llesiant deintyddol y cleifion.

Gwelsom fod y cofnodion yn broffesiynol iawn ac yn cofnodi'r trafodaethau a gynhaliwyd ynghylch opsiynau triniaeth, costau a rhesymau dros apwyntiadau. Yn ogystal â hyn, roedd y practis yn defnyddio ffurflen "Proffil Risg" ar gyfer pob claf er mwyn rhoi canran gyffredinol yn seiliedig ar y risg isel / canolig ac uchel i'r Deintgig a'r Esgyrn, Strwythur y Dannedd, Swyddogaeth y Dannedd, Dibenion Cosmetig a Chanser y Geg. Yna caiff canlyniadau'r "Proffil Risg" eu rhoi fel sgôr bresennol a sgôr darged er mwyn galluogi'r cleifion i ddeall y rhesymau dros eu triniaeth yn well.

O'r sampl o gofnodion a welsom, nodwyd gennym fod y profion pelydr-X yn amserol ac o ansawdd da. Roedd y rhesymau dros gynnal profion pelydr-X a, lle y bo'n berthnasol, y rhesymau dros beidio â'u cynnal, wedi'u dogfennu'n glir yn y nodiadau.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dystiolaeth o ddulliau rheoli ac arwain da iawn yn y practis.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y practis, ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu bob blwyddyn, a gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi'u darllen.

Roedd gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd y staff, gan gynnwys proses flynyddol ar gyfer arfarnu staff a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae'r practis yn eiddo i'r prif ddeintydd a rheolwr y practis a gefnogir gan dîm ehangach o staff clinigol ac anghlinigol. Gwelsom fod gan y practis linellau atebolrwydd clir a dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Dywedodd pob un o'r staff wrthym eu bod yn cydweithio'n dda ac roedd y gydberthynas dda rhyngddynt â'r ffordd roeddent yn rhyngweithio â'r cleifion yn dystiolaeth o hyn. Roedd y staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban ac yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon am ofal y cleifion, naill ai'n uniongyrchol gyda'r deintydd, neu gyda chorff amgen priodol, lle bo angen.

Roedd yr holl staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion ac ategwyd hyn gan ystod o bolisiâu a gweithdrefnau.

Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Daflen Wybodaeth i Gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Nodwyd bod y staff wedi llofnodi'r polisiâu newydd i ddangos eu bod yn eu deall. Golygai hyn fod y staff

yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith i'w cefnogi yn eu rolau.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar ei gyfer. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis yn cael ei harddangos yn amlwg.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd gan y practis nifer o bolisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol ar waith, gan gynnwys; Polisi Recriwtio; Cyfnod Prawf; a threfniadau Gweithio'n Hyblyg er mwyn sicrhau eu bod yn cyflogi ac yn cadw'r staff priodol. Roedd y staff hefyd yn cwblhau arfarniadau rheolaidd a gwelsom dystiolaeth fod gan bob aelod o'r staff gontract cyflogaeth.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac a oedd yn bodloni'r gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Roedd holl ffolderi personél y staff yn dilyn yr un fformat er mwyn sicrhau cysondeb wrth gadw cofnodion.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd staff yn rheolaidd. Gwelsom gofnodion y cyfarfodydd hyn ac roedd staff na allant fod yn bresennol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan reolwr y practis. Cafodd y cofnodion hyn eu llofnodi a'u dosbarthu i'r staff. Roedd y practis wrthi'n newid ei system o reoli cydymffurfiaeth â rhaglen sy'n defnyddio'r cwmwl ar gyfer rhannu'r cyfrifoldeb dros gydymffurfiaeth a'r gallu i rannu a dirprwyo cyfrifoldebau yn y practis. Nododd y practis y byddai hyn hefyd yn cynnwys rhannu cofnodion i'r staff er mwyn sicrhau eu bod wedi'u darllen ac yn cytuno arnynt.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff fel y disgrifir uchod gan ddefnyddio'r gwasanaeth diweddarau.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneddio rhag Hepatitis B er mwyn eu hamddiffyn nhw eu hunain a'r cleifion rhag yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Park Place Dental Practice

Dyddiad arolygu: 1 Mai 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Park Place Dental Practice

Dyddiad arolygu: 1 Mai 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Arddangos unrhyw ganlyniadau a newidiadau a wnaed yn dilyn yr adborth gan y cleifion yn y practis.	6.3 Gwrandio a Dysgu o Adborth. PDR adran (a)16 (2)	Mae'r adborth 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni', a argymhellwyd gan AGIC, wedi'i weithredu a chaiff ei arddangos ar ein tudalen Facebook ac ar y sgrin yn y dderbynfa. Caiff yr adborth hwn ei ddefnyddio ar sail barhaus o hyn ymlaen yn ogystal â'n dulliau presennol o gasglu adborth gan y cleifion. Cyflwynwyd tystiolaeth ffotograffig i AGIC.	Sarah Hill	Gweithredwyd 21 Mai 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Dylid newid ble a sut y caiff y cyffuriau brys a'r algorithmau cysylltiedig eu storio i amgylchedd mwy diogel.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau. PDR a13 (4)	Mae'r cyffuriau a'r offer brys wedi'u symud i'r cwpwrdd storio canolog (y tu allan i ddeintyddfeydd 1,2,3 a 4), fel yr argymhellwyd gan AGIC. Gellir cyrraedd y Cyffuriau a'r Offer Brys drwy ddrws sengl ac ychwanegwyd clicied at y drws hwn yn ôl cyfarwyddyd AGIC. Mae'r blwch cyffuriau brys wedi cael ei aildrefnu, felly caiff y cyffuriau eu storio mewn 'Bagiau Achosion Brys' gyda'u halgorithmau cysylltiedig, yn ôl cyfarwyddyd AGIC. Cyflwynwyd tystiolaeth ffotograffig i AGIC.	Sarah Hill	Gweithredwyd 3 Mehefin 2019
Rhaid i'r practis dynnu'r chwistrelli sydd wedi dar fod oddi yno a sicrhau bod proses ar gael i'r staff er mwyn sicrhau bod y cyffuriau a'r eitemau ategol sydd â dyddiadau arnynt yn cael eu gwirio'n briodol.		Rydym wedi diwygio ein ffurflenni monitro wythnosol ar gyfer ein cyffuriau brys ac offer ategol er mwyn sicrhau y caiff yr holl eitemau ategol, yn ogystal â'r cyffuriau sydd eisoes wedi'u rhestru, eu rhestru a'u llofnodi'n unigol wrth gael eu gwirio'n wythnosol. Rwyf hefyd wedi	Sarah Hill	Gweithredwyd 27 Mai 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ychwanegu gwiriad misol gan ail berson ar gyfer y ffurflenni hyn er mwyn cryfhau ein gweithdrefnau monitro ymhellach. Cyflwynwyd tystiolaeth ffotograffig i AGIC.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw ofyniad i wella.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Sarah T Hill

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 24 Mehefin 2019